

Denbighshire County Council – Decisions taken by the Pwyllgor Trwyddedu on Dydd Mercher, 5 Mehefin 2024

Agenda Item No	Topic	Decision
1	YMDDIHEURIADAU	Y Cyngorydd Ellie Chard
2	DATGAN CYSYLLTIAD	Y Cyngorydd Joan Butterfield – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 7 ar y Rhaglen
3	PENODI CADEIRYDD	PENDERFYNWYD penodi'r Cyngorydd Bobby Feeley yn Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.
4	PENODI IS-GADEIRYDD	PENDERFYNWYD penodi'r Cyngorydd Hugh Irving yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.
5	MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD	Dim.
6	COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF	PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2024 a chadarnhau eu bod yn gywir.
7	TABL PRISIAU A THALIADAU CERBYDAU HACNI	PENDERFYNWYD , drwy fwyafrif, bod y Pwyllgor Trwyddedu yn – (a) cadw'r tabl ffioedd presennol (b) cyfarwyddo'r swyddogion i baratoi adroddiad ar gyfer y Pwyllgor Trwyddedu i adolygu'r sefyllfa ymhen 12 mis.
8	ADOLYGU GOFYNION TRWYDDEDU CERBYDAU HYGIRCH I GADEIRIAU OLWYN	PENDERFYNWYD bod yr Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn awdurdodi swyddogion i gynnal ymgynghoriad gyda'r holl bartion sydd â diddordeb ynghylch y dewisiadau canlynol ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniadau'r ymgynghoriad – (a) Peidio â gwneud unrhyw newid i'r gofynion trwyddedu presennol ar gyfer WAVs sy'n golygu eu bod wedi'u trwyddedu ar yr un sail â cherbydau "arferol"; (b) ystyried dileu'r gofynion oedran presennol ar gyfer cerbydau WAV a'u disodli gydag

Denbighshire County Council – Decisions taken by the Pwyllgor Trwyddedu on Dydd Mercher, 5 Mehefin 2024

Agenda Item No	Topic	Decision
		<p><i>amod bod yn rhaid i bob cerbyd WAV gyrraedd safonau allyriadau Ewro 6 a chael prawf cydymffurfio ychwanegol bob blwyddyn unwaith y bydd y cerbyd yn 12 oed a phob blwyddyn y mae wedi'i drwyddedu wedi hynny h.y. 3 phrawf y flwyddyn bob 4 mis;</i></p> <p><i>(c) ystyried (b) uchod heb unrhyw brawf cydymffurfio ychwanegol, a</i></p> <p><i>(d) ystyried bod pob cais newydd am drwydded Cerbyd Hacni yn hygyrch i gadeiriau olwyn.</i></p>
9	RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER 2024/25	<p>PENDERFYNWYD –</p> <p><i>(a) nodi cynnwys yr adroddiad,</i></p> <p><i>(b) cymeradwyo'r rhaglen waith ar gyfer 2024/25 fel yr amlinellir yn Atodiad A yr adroddiad.</i></p>